**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd, AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

23 Mawrth 2020

Annwyl Llyr,

**Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am ei waith craffu ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ystod Cam 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 13 Mawrth 2020.

Mae nifer o argymhellion y Pwyllgor yn ymwneud â llunio Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth. Yn unol â'r arfer, byddai Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a fyddai'n cynnig dadansoddiad cynhwysfawr o'r costau, yn cyd-fynd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o ganlyniad i'r Bil hwn, pan fo hynny'n berthnasol. O ganlyniad, rwy'n derbyn argymhellion 1, 5, 15 a 17 mewn egwyddor.

Rwyf wedi nodi ymatebion i argymhellion eraill y Pwyllgor yn Atodiad A. Nid oedd yn bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor yn llawn. Er hynny, rwyf wedi gwireddu'r egwyddorion a'r rhesymeg sylfaenol cyn belled ag y bo hynny'n bosibl.

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol wrth nodi'r ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad o ran eu Hadroddiadau Cam 1, ac yn anfon copïau o'r llythyrau at dri Chadeirydd y Pwyllgorau.

Rwy'n edrych ymlaen at gael parhau i gydweithio ag Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Cynulliad.

**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad A: Ymateb i Gasgliadau ac Argymhellion Adroddiad Cam 1 y Pwyllgor Cyllid

**Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i nodi dosbarthiad yr etholwyr ledled Cymru ac yn egluro'r dull y mae'n bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw gyllid a ddyrannir i gefnogi'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud ag etholiadau a phleidleisio**.

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.** Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol, i ystyried sut orau y gallwn reoli'r effeithiau gwahanol posibl ar awdurdodau lleol unigol.

**Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i archwilio'r costau sy'n gysylltiedig ag awdurdod lleol sy'n penderfynu defnyddio'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ac yn cynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig.**

**Rwyf yn derbyn egwyddor yr argymhelliad.** Rydym eisoes yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyfranddaliadwyr eraill, yn cynnwys y Comisiwn Etholiadol, er mwyn ystyried sut fedrwn reoli'r gwahanol effeithiau potensial ar awdurdodau unigol.

**Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i nodi'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu cronfa ddata Cymru gyfan o wybodaeth cofrestru etholiadol ac yn darparu cymaint o wybodaeth â phosibl mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad sy'n sail i argymhelliad y Pwyllgor, ond nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae'r darpariaethau yn y Bil yn caniatáu i gronfa ddata etholiadol Cymru gyfan gael ei sefydlu drwy reoliadau. Yn unol â'r arfer, byddai asesiad effaith rheoleiddiol, a fyddai'n nodi dadansoddiad cynhwysfawr o'r costau, yn cael ei lunio i gyd-fynd â'r rheoliadau hyn.

**Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y mathau o gynlluniau y gallai fod am eu treialu a'r adnoddau posibl sy'n ofynnol ar gyfer gweithgaredd o'r fath.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad sy'n sail i argymhelliad y Pwyllgor, ond nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** O ystyried maint y diwygiadau etholiadol ar hyn o bryd, nid ydym yn bwriadu treialu unrhyw gynlluniau etholiadol cyn etholiadau lleol 2022, nac yn yr etholiadau hynny.

Cyn cynnal unrhyw raglen o dreialon cyflwynir prosbectws i awdurdodau lleol a fydd yn nodi amcanion y treialon a'r broses ymgeisio y bydd awdurdodau lleol yn ei dilyn gan roi amcangyfrif o gost y gweithgaredd. Mae'n debygol y bydd goblygiadau cost o ran y treialon, gan gynnwys ymdrin ag unrhyw newidiadau dros dro sydd angen eu gwneud i feddalwedd rheoli etholiadol, staffio, hyfforddiant ac ati. Mae'n anodd rhoi amcangyfrif o'r costau hyn hyd nes y cytunir ar y meysydd thematig a fydd yn cael eu treialu.

**Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o arbedion tebygol darpariaethau sy'n gysylltiedig â threuliau Swyddogion Canlyniadau ac yn cynnwys unrhyw fanylion perthnasol mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Y bwriad yw y bydd y darpariaethau hyn yn gwneud y gyfraith sy'n pennu na chaniateir talu ffi bersonol i swyddogion canlyniadau am weinyddu etholiadau lleol yn fwy eglur. Yr egwyddor sy'n sail i'r darpariaethau, felly, yw gwneud y gyfraith yn fwy eglur, nid gwneud arbedion.

**Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ymhellach yr arbedion tebygol o ddileu pleidleisiau cymunedol ac a yw'n rhesymol gosod unrhyw gostau system ddeisebau newydd yn erbyn y rhain. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.**

**Rwyf yn cydnabod bwriad argymhelliad y Pwyllgor.** Byddaf yn ystyried y dichonolrwydd, a'r buddiannau posib, o gynnwys gwybodaeth ychwanegol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig, fydd yn dangos y safiad ariannol tebygol o ddiddymu pôl cymunedol i'w gymharu â chostau deiseb.

**Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn paratoi dadansoddiad sensitifrwydd o'r effaith y gall nifer y deisebau ei chael ar amser staff a chost monitro ac adolygu'r deisebau a dderbynnir. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.**

**Rwyf yn cydnabod bwriad argymhelliad y Pwyllgor** ac mi fyddaf yn ystyried cynnwys dadansoddiad o sensitifrwydd addas yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio a fydd yn cael ei ddiwygio yn dilyn Cyfnod 2.

**Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â rhagor o waith gyda rhanddeiliaid i ystyried a yw contract darlledu Cymru gyfan yn ymarferol ac ai hwn fyddai'r ateb mwyaf cost-effeithiol, gan gynnwys costau posibl i awdurdodau lleol gaffael contractau darlledu unigol.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae'r swyddogion yn gweithio gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar hyn o bryd i gydgynhyrchu'r canllawiau a fydd yn sail i amrywiaeth o ddarpariaethau a gynhwysir yn y Bil, gan gynnwys darlledu.

Fel rhan o'r gwaith hwn mae swyddogion wrthi'n ymweld â nifer o gynghorau er mwyn clywed yn uniongyrchol ganddynt am eu trefniadau presennol, y cyfleoedd i wneud mwy a'u pryderon.

Bydd y gwaith hwn yn ystyried manteision ac anfanteision contract darlledu Cymru gyfan er mwyn llywio gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.

**Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chanllawiau (neu hyd yn oed canllawiau drafft) ar ddarlledu cyfarfodydd, gan gynnwys lle efallai na fyddai'n briodol darlledu, cyn gynted â phosibl.**

**Rwy'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn.** Rydym yn cydgynhyrchu canllawiau gydag awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar hyn o bryd. Pan fydd y rhain wedi eu drafftio, bwriedir ymgynghori yn eang er mwyn sicrhau bod cymaint o unigolion a sefydliadau â phosibl yn gallu cyfrannu'n llawn at y canllawiau terfynol.

Oherwydd y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â hyn, mae'n debygol y bydd yn rhai misoedd eto cyn y byddwn mewn sefyllfa i gynnal yr ymgynghoriad hwn.

**Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion goblygiadau cost unrhyw reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys baratoi achos busnes cyn defnyddio pŵer cymhwysedd cyffredinol**.

**Rwy'n cydnabod y bwriad sy'n sail i argymhelliad y Pwyllgor, ond nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd pan gyflwynwyd y Bil yn manylu ar gostau drafftio'r rheoliadau hyn i Lywodraeth Cymru gan mai fy mwriad bryd hynny oedd gwneud y rheoliadau hyn cyn cychwyn y pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gyfer awdurdodau cymhwysol, a dyna yw fy mwriad o hyd.

Yn unol â'r arfer, bydd y costau i lywodraeth leol yn cael eu cynnwys yn yr asesiad effaith rheoleiddiol, sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau.

**Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailasesu'r costau sy'n gysylltiedig â chynlluniau hyfforddi Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref, gan gynnwys yr hyfforddiant ychwanegol y gellir ei ddilyn o ganlyniad i'r cynlluniau hynny, ac yn sicrhau bod y goblygiadau ariannol wedi'u nodi mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Bwriad y darpariaethau yma yw sicrhau fod cynghorau cymunedol yn ystyried ac yn rheoli eu hanghenion hyfforddiant mewn ffordd effeithiol yn hytrach na chynyddu cyfanswm yr hyfforddiant sydd yn cael eu hymgymryd. Bydd cynghorau cymunedol yn dal i fod yn gyfrifol dros dalu costau hyfforddi cynghorwyr fel y meant ar hyn o bryd. Dyw'r anghenraid i greu cynllun hyfforddiant ddim yn ei hun yn creu galw am hyfforddiant newydd.

**Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddeall pa mor sylweddol fydd y newid yn y trefniadau perfformiad i brif awdurdodau unigol.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.** Rydym eisoes yn cydweithio'n agos â llywodraeth leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gydgynhyrchu'r canllawiau a fydd yn cynorthwyo i weithredu'r darpariaethau hunanasesu, er mwyn sicrhau bod

y drefn perfformiad ac asesu newydd yn cael effaith a sicrhau ei bod yn gweithio ar y cyd â dulliau presennol.

Cafodd y darpariaethau ar hunanasesu groeso cyffredinol gan y cynrychiolwyr llywodraeth leol, a nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei bod yn cefnogi ac yn croesawu'r darpariaethau hyn. Ychwanegodd y Gymdeithas fod pob awdurdod wedi arfer â'r broses o hunanasesu ac y bydd y darpariaethau hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd i awdurdodau hunanasesu er eu budd eu hunain.

Gwnaeth y Gymdeithas y sylw hefyd, gan fod cynghorau wedi ymrwymo i wella gwasanaethau a darparu gwell canlyniadau i'w cymunedau, ei bod yn hyderus y bydd hunanasesiadau cynghorau yn gynhwysfawr, yn gadarn ac yn cael eu defnyddio i sbarduno gwelliannau o ran llywodraethu a darparu gwasanaethau.

Rwyf hefyd yn bwriadu ariannu, drwy'r Gymdeithas, swyddogaeth gwella a chefnogi o dan arweiniad y sector er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r drefn perfformiad a llywodraethu newydd a'r Bil yn ei gyfanrwydd. Bydd y swyddogaeth gwella a chefnogi hefyd yn cynorthwyo awdurdodau lleol, aelodau a swyddogion gyda'u huchelgais o wella ac arloesi ar draws y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

**Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu ei ddadansoddiad o gostau a buddion sefydlu cyd-bwyllgorau corfforaethol pan fydd ei hadolygiad yn dod i ben. Os yw'n berthnasol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid cyfrif am y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** a byddaf yn ystyried a yw'n fwy priodol a pherthnasol rhoi cyfrif am yr wybodaeth hon yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil neu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau.

**Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad ar yr adolygiad o refeniw ardrethi annomestig sy'n cael ei golli bob blwyddyn, pan fydd y darpariaethau newydd, sydd â'r nod o leihau cyfleoedd ar gyfer ymddygiad osgoi, mewn grym.**

**Rwy'n cytuno â'r egwyddor sy'n sail i'r argymhelliad hwn.** Cyn i'r darpariaethau newydd gael eu gweithredu, bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â llywodraeth leol a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ganfod beth yw'r ffordd orau o fonitro llwyddiant y mesurau i ostwng lefelau osgoi ardrethi annomestig. Byddwn yn ystyried ymhellach pryd a sut orau i ddarparu diweddariad ar y mater hwn, ynghyd â gweithgareddau adolygu ar ôl gweithredu eraill.

**Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dadansoddi ei strategaeth adolygu ôl-weithredu, gan roi ystyriaeth i adnoddau'r gweithgareddau y mae'n bwriadu eu cynnal ac yn cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig**

**Rwyf yn cydnabod bwriad argymhelliad y Pwyllgor** ac mi fyddaf yn ystyried cynnwys manylion costau cyfle o gynnal yr adolygiad ar ol gweithredu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio a fydd yn cael ei ddiwygio yn dilyn Cyfnod 2.

**Casgliad 1. Cred y Pwyllgor y gallai'r darpariaethau i ymestyn yr etholfraint i garcharorion a phobl ifanc yn y ddalfa fod wedi bod yn fwy datblygedig cyn cyflwyno'r Bil. Mae'r arfer o gyflwyno Biliau gyda'r bwriad o wneud newidiadau sylweddol yn nes ymlaen trwy ddiwygio Bil yn osgoi craffu, mae hyn yn anfoddhaol ac ni ddylai barhau.**

Fel y dywedais wrth y Pwyllgor, nid oeddwn am fwrw ymlaen â'r gwaith yn y maes hwn nes imi weld adroddiad terfynol ymchwiliad Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar bleidleisio i garcharorion. Cyflwynodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Mehefin a chan fod hwn yn faes deddfwriaeth hynod gymhleth, nid oedd yn bosibl cynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil wrth ei gyflwyno. Yr wyf bob amser wedi bod yn glir mai fy mwriad oedd cyflwyno'r darpariaethau hyn fel gwelliannau ac yr wyf wedi rhannu'r rhain ymlaen llaw â'r holl bwyllgorau.